

CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT



**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y SWYDDOG LLYWODRAETHU
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2021**

CYFLWYNIAD

Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn crynhoi gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021. Mae'n rhoi sicrwydd bod y Gorfforaeth wedi bodloni ei chyfrifoldebau statudol ac wedi gweithredu o fewn y strwythur llywodraethu a osodwyd yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent.

Mabwysiadodd y Gorfforaeth y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (Y Cod) ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn nodi gofynion statudol ac arfer gorau argymelledig mewn perthynas â llywodraethu i gefnogi byrddau coleg i fodloni eu cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Mae Bwrdd Coleg Gwent yn ceisio bodloni (a mynd y tu hwnt i, lle bynnag y bo'n bosibl) disgwyliadau'r Cod.

COVID-19

Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gweithredodd Coleg Gwent o bell am gyfnod sylweddol yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21. Dychwelodd rhai dysgwyr i'r campws ar ôl gwyliau'r Pasg, ond parhaodd y Bwrdd i gwrdd o bell, a chynhaliwyd bob cyfarfod Bwrdd a'r pwyllgorau dros Microsoft Teams.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch ymateb y coleg i'r argyfwng a'r ffordd y gweithredwyd canllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, mynychodd y Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Iechyd a Diogelwch gyfarfodydd y Grŵp Llywio Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd.

LLYWODRAETHU A GWELLIANT PARHAUS

Cefnogir gwaith y Bwrdd gan is-bwyllgorau, ac mae gan bob un rhaglen waith flynyddol sy'n cyd-fynd â busnes y coleg. Mae Amserlen Ddirprwyaeth wedi cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd. Mae hyn yn rhoi eglurhad a chysondeb i'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae Offeryn ac Erthyglau a Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Digwyddodd yr adolygiad diwethaf yn ystod 2020-21, a chymeradwyodd y Bwrdd y dogfennau newydd ym mis Mai 2021. Ar wefan Coleg Gwent gellir dod o hyd i gopiau o'r dogfennau hyn, ynghyd â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer is-bwyllgorau'r Bwrdd:

<https://www.coleggwent.ac.uk/governance>

Mae'r Gorfforaeth wedi ymrwmo i gynnal arbenigedd wrth lywodraethu a gwneud gwelliannau parhaus. Er mwyn cefnogi hyn, cyflwynwyd proses Hunanasesu Llywodraethu yn 2020-21 yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu. Llwyddodd yr aelodau i gwblhau'r broses yn ystod gwyliau'r haf, a bydd y canlyniadau a'r pwyntiau gweithredu sy'n deillio o hyn yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd yn ystod Hydref 2021.

AELODAETH Y GORFFORAETH

Ym mis Chwefror 2021, penderfynodd y Bwrdd i gynyddu nifer penodol yr aelodau i 22, er mwyn sicrhau bod pob pwyllgor yn gallu gweithredu'n effeithiol, gyda lefel briodol o annibyniaeth. Ymhlith yr aelodau nawr mae 16 Llywodraethwr annibynnol, 2 Llywodraethwr Staff, 3 Myfyrwr-Llywodraethwr a Phennaeth/Prif Weithredwr.

Yn ogystal â hyn, mae gan y Gorfforaeth ddau Aelod Allanol annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.

Aelodaeth 2020-21

Yr aelodau a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2020-21 oedd:

- | | | |
|----------------------------|--|--|
| • Mark Langshaw MBE | Cadeirydd y Llywodraethwyr | |
| • Sue Ball | Is-gadeirydd y Llywodraethwyr | |
| • Guy Lacey | Pennaeth/Prif Weithredwr | |
| • Anthony Basnett | Llywodraethwr | |
| • Elizabeth Brimble | Llywodraethwr | |
| • Andrew Clark | Llywodraethwr | Penodwyd ym mis Chwefror 2021 |
| • Emma Davies | Llywodraethwr | Penodwyd ym mis Chwefror 2021 |
| • Gavin Evans | Myfyriwr-lywodraethwr (Addysg Uwch) | Penodwyd ym mis Chwefror 2021 |
| • Jamie Farr | Llywodraethwr | Penodwyd ym mis Chwefror 2021 |
| • Aaron Feist | Myfyriwr-lywodraethwr (Addysg Bellach) | |
| • Christopher Freegard OBE | Llywodraethwr | |
| • Darragh Hanley-Crofts | Llywodraethwr | |
| • Sian Hughes | Llywodraethwr Staff | |
| • Ray Morrison | Llywodraethwr | |
| • John Phelps | Llywodraethwr | |
| • Matthew Preece | Llywodraethwr | |
| • Wendy Rogers | Llywodraethwr Staff | |
| • Elizabeth Swaffield | Llywodraethwr | |
| • Martin Veale | Llywodraethwr | |
| • Dorota Lee | Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio | Penodwyd ym mis Mehefin 2021 |
| • Gareth Watts | Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio | |
| • Hamed Amiri | Llywodraethwr | Wedi ymddeol ym mis Mawrth 2021 |
| • Hilary Aldridge | Llywodraethwr | Ymddiswyddodd ym mis Tachwedd 2020 |
| • Zoe Engstrom | Myfyriwr-lywodraethwr (Addysg Bellach) | Penodwyd ym mis Ionawr 2021
Ymddiswyddodd ym mis Mai 2021 |
| • Megan Grace | Myfyriwr-lywodraethwr (Addysg Bellach) | Wedi ymddeol ym mis Rhagfyr 2020 |
| • Samantha Morgan | Myfyriwr-lywodraethwr (Addysg Uwch) | Ymddiswyddodd ym mis Rhagfyr 2020 |

Penodiadau

Mae pob penodiad i'r Gorfforaeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd ac argymhelliad y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu. Caiff y Llywodraethwyr Staff a'r Myfyrwyr-lywodraethwyr eu hethol gan eu cyfoedion. Byddant hefyd yn cwrdd â'r pwyllgor cyn i'r Bwrdd gymeradwyo eu penodiad yn derfynol.

Cyfnod yn y Swydd

Ac eithrio'r Pennaeth/Prif Weithredwr a Myfyrwyr-lywodraethwyr, mae pob aelod yn cael ei benodi am dymor o dair blynedd yn y swydd. Maent fel arfer yn gwasanaethu am dri thymor ar y mwyaf (cyfanswm o naw mlynedd). Mae'r Bwrdd o'r farn bod tymor o'r hyd hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r Coleg, yn sicrhau parhad o fewn y gwaith arwain, ac yn rhoi cyfle i gyflwyno syniadau a safbwyntiau newydd.

Nid yw ail-benodiadau'n cael eu gwneud yn awtomatig ar ddiwedd bob tymor tair blynedd. Mae'n rhaid i Lywodraethwyr Staff gael eu hail-ethol gan eu cyfoedion, a gall Llywodraethwyr annibynnol wneud cais i gael eu hail-benodi. Mae'r penderfyniad i ail-benodi yn nwylo'r Bwrdd, ac yn seiliedig ar argymhelliad y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu ac adolygiad ar gyfraniad ac ymrwymiad yr aelod, gyfochr ag anghenion aelodaeth presennol y Bwrdd yn gyffredinol.

Fel arfer bydd Llywodraethwyr Myfyrwyr yn cael eu penodi am flwyddyn, ond efallai y bydd y Bwrdd yn ymestyn hyn am flwyddyn arall os yw hyn er lles y Bwrdd. Gall Myfyrwyr-lywodraethwyr wasanaethu o fewn y swydd am uchafswm o dri thymor.

Cymhwysra

Mae ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried am benodiad yn cael gwybodaeth ynghylch y meini prawf cymhwysra ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd ac fel Ymddiriedolwr Elusennol, ac yn llofnodi datganiad yn cadarnhau eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf dan sylw. Mae cymhwysra pob aelod newydd yn cael ei wirio gan y Swyddog Llywodraethu cyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiad. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau yn erbyn y Gofrestr Cyfarwyddwyr Anghymwys a'r Gofrestr Ansofodd. Gofynnir i aelodau gwblhau cais DBS Manylach hefyd. Mae'r holl aelodau'n llofnodi er mwyn cadarnhau eu cymhwysra wrth gael eu penodi a chadarnhau eu cymhwysra eto ar sail flynyddol.

Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Mae pob un yn cael eu hethol gan y Bwrdd i wasanaethu am ddau dymor yn y swydd. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd, gallant geisio cael eu hail-ethol i wasanaethu am hyd at dri thymor (cyfanswm o chwe blynedd) yn y swydd. Mae ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio olyniaeth yn effeithiol a sicrhau parhad o fewn arweinyddiaeth.

Y Cadeirydd Llywodraethwyr yn ystod 2020-21 oedd Mr Mark Langshaw. Cafodd ei benodi i'r swydd am y tro cyntaf ym mis Awst 2018, a chafodd ei ail-ethol ym mis Gorffennaf 2020 i wasanaethu ail dymor o ddwy flynedd hyd at fis Gorffennaf 2022.

Gwasanaethodd Mrs Hilary Aldridge fel yr Is-gadeirydd hyd at fis Tachwedd 2020. Yn dilyn ei hymddiswyddiad, cafodd Mrs Sue Ball ei hethol i'r swydd er mwyn cwblhau tymor Ms Aldridge hyd at fis Gorffennaf 2021. Yn dilyn hyn, cafodd Mrs Ball ei ail-ethol gan y Bwrdd i wasanaethu am dymor o ddwy flynedd bellach, o fis Awst 2021 hyd at fis Gorffennaf 2023.

Llywodraethwyr â chyfrifoldebau arbennig (Llywodraethwyr Cyswllt)

Mae Llywodraethwyr Cyswllt yn mynd i gyfarfodydd grŵp llywio gweithredol ac yn cynnig rhagor o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch meysydd llywodraethu allweddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw bryderon neu faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dwyn at sylw'r Bwrdd yn brydlon.

Y Llywodraethwyr Cyswllt yn ystod 2020-21 oedd:

- Amrywiaeth a Chynhwysiant Mr Hamed Amiri
- Iechyd a Diogelwch Mr John Phelps
- Diogelu Mr Ray Morrison

Ym mis Mehefin 2021, ychwanegwyd swydd Llywodraethwr Cyswllt arall yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a Seiberddiogelwch. Mr Andrew Clark fydd yn ymgymryd â'r swydd hon rhwng 2021 a 2022.

Treuliau

Mae aelodau'r Gorfforaeth a'i phwyllgorau yn gwasanaethu ar sail wirfoddol, ddi-dâl. Gall aelodau hawlio costau teithio neu gynhaliaeth resymol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd. Mae costau a hawliwyd yn ymwneud yn bennaf â theithio yn ôl ac ymlaen o gyfarfodydd, ond gall hefyd gynnwys lluniaeth, diodydd di-alcohol a nwyddau traul hanfodol.

Mae costau yn cael eu hawlio drwy borth Adnoddau Dynol hunanwasanaeth y coleg, ac yn cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu. Os yw'r Cadeirydd yn cyflwyno hawliad, caiff hwn ei wirio a'i gymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu a'r Is-gadeirydd (Adnoddau a Chynllunio) neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr.

Oherwydd y cyfnod clo COVID-19, a'r defnydd parhaus o gyfarfodydd o bell, ni hawliwyd unrhyw gostau gan aelodau yn ystod 2020-21.

Cytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021, ni roddodd Coleg Gwent gytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaethau i unrhyw aelod pwyllgor neu Gorfforaethol, nac i unrhyw sefydliad y mae aelod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef, oni bai er mwyn mynd ar drywydd ei fusnes cydnabyddedig o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

Diddordebau

Mae pob aelod yn cwblhau Datganiad o Fuddiannau ar ei benodiad ac yn flynyddol wedi hynny. Mae hwn yn rhestru'r holl fuddiannau sydd ganddynt hwy (neu aelod agos o'r teulu) a allai beri gwrthdaro wrth arfer eu beirniadaeth annibynnol wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Llywodraethwr/aelod pwyllgor (neu a all ymddangos i wneud hynny). Y Swyddog Llywodraethu sy'n cynnal Cofrestr Buddiannau'r Aelodau. Mae eitem agenda yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor sy'n galluogi aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas ag eitemau a phynciau trafod penodol. Cofnodir yr holl fuddiannau sy'n cael eu datgan, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd, yn y cofnodion.

Mae Cofrestr Buddiannau'r Aelodau newydd ar gyfer 2020-21 i'w gweld isod:

Enw	Manylion y buddiant	Dyddiad y datgelwyd y buddiant	Dyddiad diweddaru'r Gofrestr
Hilary Aldridge (Is-gadeirydd) Ymddeolodd 05.11.21	<ul style="list-style-type: none"> Partner, Wyewood Properties Cyfarwyddwr, Cernunos Developments Ltd. Partner, Nathan House Flats Aelod, Ridgeway Learning Partnership Cyn-lywodraethwr, Coleg York (wedi dod i ben) Cyfarwyddwr, Brook House Flats Ltd. Cyfarwyddwr, Hanbury Court Residential Ltd. 	23.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 08.10.18 21.10.19	24.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 01.08.18 08.10.18 30.10.19
Hamed Amiri Ymddeolodd 31.03.21	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogai, NewLaw Solicitors, Caerdydd Cyn-gyflogai, Target Group Ltd (wedi dod i ben mis Mehefin 2020) 	18.06.19 16.04.18	26.06.19 16.04.18
Sue Ball	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogaeth: Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Ymddeolodd fis Awst 2021) Aelod o Gyngor Eglwys y Plwyf, Eglwys Sant Marc, Casnewydd 	26.03.18 26.03.18	30.08.21 23.04.18
Anthony Basnett	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogai – VMWARE o 17.06.19 Cyn-gyflogai, Cisco International Ltd. (wedi dod i ben 16.06.19) Gwraig – gweithio i Goleg Gwent 	21.05.19 17.01.18 17.01.18	22.05.19 22.05.19 19.01.18
Elizabeth Brimble	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addaswydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg Merch sy'n oedolyn yn fyfyrwr ar Gampws Crosskeys 	29.05.19 11.09.20	10.06.19 02.10.20
Andrew Clark	<ul style="list-style-type: none"> Merch sy'n cael ei chyflogi gan goleg Addysg Bellach arall yng Nghymru Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio a Risg o fewn y Bwrdd Arholi AQA. Cyn-gyflogai, Llywodraeth Cymru (ymddeolodd 31.01.21) Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Archwilio Cymru (w.e.f. 01.07.21) Aelod Bwrdd, CCDG Ltd. yn masnachu fel Gyrfa Cymru (o 01.08.21) 	01.03.21 01.03.21 01.03.21 20.07.21 01.08.21	15.03.21 15.03.21 15.03.21 22.07.21 30.08.21

Emma Davies	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogai, Willis Towers Watson 	24.02.21	15.03.21
Zoe Engstrom (Myfyriwr-lywodraethwr) Ymddiswyddodd fis Mawrth 2021	<ul style="list-style-type: none"> Myfyriwr, Coleg Gwent 	13.12.20	13.12.20
Gavin Evans	<ul style="list-style-type: none"> Myfyriwr, Coleg Gwent 	01.03.21	01.03.21
Jamie Farr	<ul style="list-style-type: none"> Perchennog/Cyfarwyddwr YourNorth Ltd Sylfaenydd/Cyfarwyddwr YourNorth Veterans – Cwmni Buddiant Cymunedol 	12.03.21	12.03.21
Aaron Feist (Myfyriwr-lywodraethwr)	<ul style="list-style-type: none"> Myfyriwr, Coleg Gwent 	17.01.20	28.01.20
Christopher Freegard	<ul style="list-style-type: none"> Dirprwy Raglaw Gwent Cyn-llywodraethwyr, Prifysgol De Cymru (wedi dod i ben 31 Gorffennaf 2020) Ymddiriedolwr – Kaleidoscope Project Gwraig - Pennaeth Uned Noddi Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru 	12.01.20 12.01.20 12.01.20 12.01.20	07.02.20 31.07.20 07.02.20 07.02.20
Megan Grace (Myfyriwr-lywodraethwr) Ymdeolodd 31.12.20	<ul style="list-style-type: none"> Myfyriwr a Llysgennad Myfyrwyr Coleg Gwent Chwaer yn cael ei chyflogi gan Coleg Gwent 	17.01.20 17.01.20	17.01.20 17.01.20
Darragh Hanley-Crofts	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogai, Vertical Aerospace Ltd. Cyn-gyflogai, Corfforaeth Darlledu Prydain (wedi dod i ben fis Medi 2021) Aelod, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) 	01.09.21 01.08.17 01.08.17	30.08.21 30.08.21 30.09.17
Sian Hughes (Llywodraethwr Staff)	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o staff, Coleg Gwent Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill 	-	03.10.16
Guy Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr)	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraethwr, Ysgol Gyfun y Coed Duon, Caerffili Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Trefynwy, Trefynwy (wedi dod i ben fis Ionawr 2021) Cynghorydd, YPRENTIS (partneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy) Cyfarwyddwr/ Cadeirydd, Colegau Cymru 	08.10.15 08.10.15 17.04.18 01.09.18 01.09.18	08.10.15 08.10.15 20.01.21 01.01.19 01.09.18
Mark Langshaw (Cadeirydd)	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Continental Teves (Cyflogaeth). Mae'r cwmni yn gwsmer hyfforddi ar gyfer y Coleg ac yn cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg. 	09.11.16	10.11.16
	<ul style="list-style-type: none"> Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (di-dâl) 	09.11.16	09.11.16
	<ul style="list-style-type: none"> Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl) 	09.09.18	09.09.18
	<ul style="list-style-type: none"> Cadeirydd Bwrdd Cyngori Strategol, y Cymoedd Technoleg (di-dâl) 	09.09.18	09.09.18
	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl) Penodwyd yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer Fforwm Modurol Cymru (di-dâl) 	09.11.16 28.06.21	09.11.16 28.06.21
Samantha Morgan (Myfyriwr-lywodraethwr) Ymdeolodd 01.12.20	<ul style="list-style-type: none"> Myfyriwr, Coleg Gwent Cyflogai (rhan amser) Grŵp Targed 	26.02.20 26.02.20	26.02.20 26.02.20

Ray Morrison	<ul style="list-style-type: none"> Cyberchennog a chyd-gyfarwyddwr, Bowmor Ltd. yn masnachu fel Bluebird Care Casnewydd (darparwr gofal cartref ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion) 	09.08.18	09.08.18
	<ul style="list-style-type: none"> Gwirfoddolwr (Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia), y Gymdeithas Alzheimers 	09.08.18	09.08.18
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas Ystyriol o Dementia Cyngor Dinas Casnewydd 	09.08.18	09.08.18
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod, Fforwm Darparwyr Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf 	09.08.18	09.08.18
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref 	09.08.18	09.08.18
John Phelps	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant Addysg Bellach hunangyflogedig gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Cymwysterau Cymru - adolygiad o gymwysterau peirianeg (Cynghorydd Sector) Gwaith asesu dysgu yn seiliedig ar Waith ar gyfer Coleg Merthyr 	29.05.19	10.06.19
Matthew Preece	<ul style="list-style-type: none"> Hunangyflogedig - Business Doctor (ymgyngoriaeth taledig i fusnesau ledled Gwent). Is-lywydd BNI Celtic - grŵp rhwydweithio atgyfeirio yng Nghasnewydd Gwraig - Cyfarwyddwr Ariannol, Aviva 	16.01.20 16.01.20 16.01.20	26.01.20 26.01.20 26.01.20
Wendy Rogers (Llywodraethwr Staff)	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o staff, Coleg Gwent Is-gadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Coleg Gwent Cadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Crosskeys Cynrychiolydd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Pont-y-pŵl a Brynbuga 	10.08.18 10.08.18 10.08.19 10.08.19	10.08.18 10.08.18 10.08.19 10.08.19
Lizzie Swaffield	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogai - Education Endowment Foundation Cyn-gyflogai - Cymwysterau Cymru (Rheolwr Cymwysterau) wedi dod i ben mis Awst 2020 Cyfranddaliwr, Swaffield Ltd (Busnes gwasanaethau peirianeg) Gŵr - perchennog Swaffield Ltd Aelod, Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn Grange (Prosiect trosglwyddo ased cymunedol lleol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd) 	28.09.20 02.10.20 20.06.17 20.06.17 19.07.18	02.10.20 02.10.20 31.07.17 31.07.17 19.07.18
Martin Veale	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. (Taledig) ac Ymddiriedolwr Elusen Codi Arian Felindre 	15.03.16	16.03.16
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Chwaraeon Cymru 	01.09.18	05.09.18
	<ul style="list-style-type: none"> Ynad Heddwch, Mainc Canolbarth Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 	12.09.16	03.11.16
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio, Cyngor Sir Penfro 	06.09.19	15.11.19
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Lleyg, Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 	11.04.19	11.04.19

	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr, Cwmni Buddiannau Cymunedol Datblygiad Fferm Wynt Pen y Cymoedd (i fod i ddechrau mis Mehefin 2019) 	11.04.19	11.04.19
	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd Hawthorn (di-dâl) 	20.01.20	27.01.20
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru 	20.01.20	27.01.20
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 	07.01.21	25.01.21
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, Cymdeithas Tai Hafod, Caerdydd 	07.01.21	25.01.21
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Lleyg y Pwyllgor Safonau, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Dwyrain Cymru (o fis Ebrill 2021) 	10.05.21	11.05.21
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (yn adrodd i Brif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru) (o fis Mai 2021) 	10.05.21	11.05.21
Gareth Watts (Aelod Allanol)	<ul style="list-style-type: none"> Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Senedd Cymru (Cyflogaeth) 	20.10.15	25.10.15
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank, Caerdydd 	17.10.17	08.11.17
Paul Davenport (Aelod Allanol) Ymddiswyddodd ym mis Mai 2021	<ul style="list-style-type: none"> Cael ei gyflogi gan Vauxhall Finance – Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsffurfio 	15.12.15	21.12.15
Dorota Lee (Aelod Allanol) Penodwyd 01.06.21	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogaeth: Pennaeth Sicrhau Data, Swyddfa'r Myfyrwr 	23.06.21	01.07.21
	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol, CEM Brynbuga (gwirfoddol) 	23.06.21	01.07.21
	<ul style="list-style-type: none"> Ynad Heddwch, Llys Oedolion a Theuluoedd, Mainc Gwent 	23.06.21	01.07.21

Cynefino a Datblygu Aelodau'r Gorfforaeth

Mae aelodau sydd newydd eu penodi yn cael Pecyn Cynefino electronig sy'n cynnwys copiâu o ddogfennau allweddol gan gynnwys Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a Rheolau Sefydlog Coleg Gwent, y Memorandwm Dealltwriaeth Ariannol gyda Llywodraeth Cymru a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru. Mae dogfennau allweddol gan y coleg a chanllawiau cyffredinol hefyd wedi'u cynnwys. Gellir cynnig y wybodaeth hon mewn fformatau eraill, os yw hynny'n ofynnol.

Mae aelodau newydd yn ymgymryd â phroses gynefino sy'n cynnwys cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Swyddog Llywodraethu, y Cadeirydd a'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi golwg bras o'r Coleg a'i Genhadaeth a'i Weledigaeth strategol yn ogystal â materion llywodraethu allweddol. Mae ail gyfnod cynefino hefyd yn cynnwys cyfarfodydd gyda phob un o'r Is-benaethiaid sy'n rhoi golwg bras ar eu meysydd cyfrifoldeb. Anogir llywodraethwyr i gymryd rhan mewn ymweliadau i'n pum campws, fodd bynnag, mae cyfyngiadau wedi bod ynghlwm â hyn ers mis Mawrth 2020 oherwydd mesurau rheoli COVID-19.

Mae gan bob aelod fynediad at ystod eang o wybodaeth ac arweiniad yn electronig ac mae Llywodraethwyr yn cwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol ar-lein yn seiliedig ar Ddiogelu,

Atal, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal, mae Llywodraethwyr yn cefnogi digwyddiadau ar draws y coleg, gan gynnwys arddangosfeydd, perfformiadau a chystadlaethau pan mae hynny'n bosibl. Yn ystod 2020-21, roedd cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau coleg yn gyfyngedig, ond fe gymerodd aelodau ran mewn rhai digwyddiadau ar-lein, yn cynnwys y noson 'Dathlu Rhagoriaeth' flynyddol.

Mae sesiynau briffio cyn cyfarfodydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o faterion sy'n codi a mentrau allweddol. Yn ystod 2020-21 cafodd y Bwrdd sesiynau briffio ynghylch:

- Canllawiau Diogelu wedi'u Diweddarau gan Lywodraeth Cymru
- Seiberddiogelwch - Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Yn ogystal â hyn, cafodd Llywodraethwyr hyfforddiant yn ystod 2020-21 gan ymgynghorwyr cyfreithiol y coleg ynghylch y broses Apeliadau Disgyblu, a chymerodd nifer o aelodau ran mewn digwyddiadau allanol yn ymwneud â seiberddiogelwch, rôl Addysg Bellach mewn adferiad economaidd a dyfodol y sector Addysg Bellach.


Amrywiaeth o fewn y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cefnogi Datganiad Amrywiaeth y coleg, ac wedi ymrwymo iddo:


'Rydym yn goleg cynhwysol ac amrywiol lle mae croeso i bawb. Lleoliad lle allwch chi fod ynoch chi eich hun heb ofni cael eich beirniadu. Amgylchedd parchus, sydd â meddwl agored i wahanol ddiwylliannau, meddylfryd, credoau ac agweddau, lle mae pawb yn perthyn iddo.'

Mae amrywiaeth o fewn y Bwrdd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu, sy'n adolygu amrywiaeth a sgiliau o fewn data proffil yn rheolaidd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrechion i ehangu cwrpas y Llywodraethwyr sy'n cael eu recriwtio drwy ddefnyddio dulliau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau proffesiynol a chymunedol, cyrff masnachu a safleoedd recriwtio. Yn ei Adroddiad Hunanasesu ar gyfer 19/20, roedd y Bwrdd yn cydnabod ei rôl fel hyrwyddwr amrywiaeth a chynhwysiant, a nododd hwn fel maes sydd angen datblygiad pellach, gan gydnabod gwerth cael amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu wedi parhau i adolygu'r broses recriwtio, ac yn ystod tymor yr hydref 2021, bydd y broses recriwtio i lenwi dwy swydd wag o fewn y Bwrdd yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd yr holl waith recriwtio yn y dyfodol yn ceisio cyrraedd y pwll ehangaf o ymgeiswyr posibl.

Amrywiaeth o fewn y Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2021:




Nid oedd unrhyw aelod o'r Bwrdd yn ystyried ei hun yn 'anneuaidd' neu'n 'arall'.




Roedd un aelod a wasanaethodd rhwng 2020-21 (ond a ymddiswyddodd ym mis Mai 2021), yn adnabod ei hun fel 'Asiaidd/Affgan'.

Proffil oedran:



Anabledd: Mae 1 Llywodraethwr wedi datgan anabledd/cyflwr tymor hir
Iaith Gymraeg: Mae 1 Llywodraethwr yn siaradwr Cymraeg rhugl



Mae amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol/profiad yn cael ei gynrychioli o fewn y Bwrdd. Mae profiadau cyflogwr penodol yn cynnwys:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Technolegau digidol
- Peirianeg
- Cyfrifeg, Archwilio a Chyfrifeg
- Addysg
- Manwerthu

- Yswiriant

Cynllunio Olyniaeth

Mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn monitro dyddiadau penodi yn rheolaidd ochr yn ochr â data ynghylch sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd, ac yn cynnig cyngor i'r Bwrdd ynghylch cynllunio a recriwtio. Cafodd Polisi Olyniaeth ac Aelodaeth ei gymeradwyo gan y pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021.

GWEITHGAREDD CORFFORAETH

Cyfarfodydd Bwrdd

Fel y nodwyd eisoes, bu i gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau fynd rhagddynt o bell drwy Microsoft Teams yn ystod 2020-21. Cafodd y Bwrdd bump cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 29 Medi 2020

- 1 Rhagfyr 2020
- 23 Chwefror 2021
- 25 Mai 2021
- 20 Gorffennaf 2021

Y cworwm cytunedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yw 50% o aelodau cymwys yn bresennol. Roedd gan bob cyfarfod Bwrdd yn ystod y flwyddyn gworwm.

Adrodd a monitro

Ym mhob cyfarfod, mae'r Bwrdd yn cael adroddiad gan y Pennaeth ynghylch datblygiadau allweddol o fewn y coleg a'r sector Addysg Bellach. Mae'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cyflwyno adroddiad manwl yn nodi perfformiad ariannol yn erbyn cyllideb, dangosyddion perfformiad allweddol a rhagolwg ariannol yn ystod y flwyddyn ym mhob cyfarfod, ac mae'r Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) yn darparu diweddariadau ynghylch recriwtio dysgwyr a materion ansawdd. Mae'r ddau Is-bennaeth hefyd yn cefnogi diweddariadau gan is-bwyllgorau perthnasol.

Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau sicrwydd rheolaidd ynghylch cyfrifoldebau llywodraethu allweddol megis Diogelu, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Chynaliadwyedd a Llywodraethu Gwybodaeth, yn ogystal â chynnydd prosiectau cyfalaf.

Mae pob is-bwyllgor yn adrodd ar ei weithgareddau ac yn rhannu copiâu o gofnodion drafft a phapurau (lle fo'n berthnasol). Efallai y cyfeirir eitemau i gael eu cymeradwyo neu eu hadolygu gan y Bwrdd, tra bod eitemau eraill yn rhoi sicrwydd ac yn diweddarau'r Bwrdd cyfan am ddatblygiadau allweddol yng ngwahanol feysydd y coleg.

Cymeradwyo gwariant

Yn unol â Rheoliadau Ariannol y Coleg, (adolygwyd a chymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020) mae'r Bwrdd yn cymeradwyo gwariant cyfalaf o dros £250,000. Mae cynnydd prosiectau mawr yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a rhennir crynodebau 'dangosfwrdd' gyda'r Bwrdd llawn er mwyn darparu gwybodaeth.

Yn ystod 2020-21, cymeradwyodd y Bwrdd wariant cyfalaf ar gyfer diweddarau gweithdy peirianeg a newid cyfleusterau ar Gampws Crosskeys, yn ogystal ag offer newydd mewn gweithdai peirianeg ar gampysau Casnewydd a Crosskeys. Cafodd cynllun gwariant cyfalaf diwygiedig hefyd ei gymeradwyo mewn perthynas â datblygu Canolfan Arlwy, Lletygarwch a Thwristiaeth ar Gampws Brynbuga.

Pwyllgorau

Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gyda phum is-bwyllgor. Mae'r pwyllgorau hyn yn cefnogi ei waith ac yn galluogi'r Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth fwy manwl o feysydd penodol. Ar hyn o bryd, mae'r is-bwyllgorau fel a ganlyn:

Pwyllgor Archwilio	Yn cael ei gadeirio gan Mr Martin Veale
Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd	Yn cael ei gadeirio gan Lizzie Swaffield
Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau	Yn cael ei gadeirio gan Mr Anthony Basnett

Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu	Yn cael ei gadeirio gan Mrs Sue Ball
Pwyllgor Cydnabyddiaeth	Yn cael ei gadeirio gan Mr M Langshaw MBE

Yn ogystal â'r pwyllgorau hyn, mae'r Pwyllgor Apeliadau'n ymgynnull at ddibenion gwranddo ar Apeliadau Disgyblu ac efallai y trefnir grwpiau gwaith ad-hoc ar gyfer prosiectau neu adolygiadau penodol.

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Llywodraethwr a dau Aelod Allanol ychwanegol gyda phrofiad arbenigol o archwilio, cyfrifeg neu lywodraethu.

Nid yw Cadeirydd y Gorfforaeth na'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio ac yn unol â gofynion Cod Ymddygiad Archwilio Addysg Bellach Cymru (ACOP), mae aelodau o staff a myfyrwyr ac aelodau'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wedi'u heithrio rhag bod yn aelodau. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynd i'r holl gyfarfodydd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae uwch reolwyr eraill yn cael gwahoddiad i fynychu pan mae hynny'n briodol, mewn perthynas ag eitemau penodol i'w trafod. Mae cynrychiolwyr o wasanaethau archwilio mewnol (TIAA) ac allanol (PwC) yn mynd i holl gyfarfodydd y pwyllgor, ac mae'r pwyllgor yn cynnal trafodaethau preifat gyda'r cynrychiolwyr hyn o leiaf unwaith y flwyddyn, ond mae holl staff y coleg wedi'u heithrio.

Yn 2020-21, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith ar:

- 17 Tachwedd 2020
- 9 Mawrth 2021
- 11 Mai 2021
- 6 Gorffennaf 2021

Cynhaliwyd bob cyfarfod gan y pwyllgor yn 2020-21 o bell, ac roedd pob un yn gwneud cworwm.

Ar ôl bob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn darparu adroddiad diweddar i'r Bwrdd ynghyd â chopi o gofnodion drafft a phapurau perthnasol. Fel y gofynnir gan yr ACOP, mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn cynnig barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu'r Coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith archwilwyr mewnol ac allanol ar gyfer y flwyddyn, gyda'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'w adolygu gan y Bwrdd ar yr un pryd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiad hwn yn llunio rhan o gyflwyniadau blynyddol y Gorfforaeth i Lywodraeth Cymru.

Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

Mae'r pwyllgor hwn yn goruchwyllo perfformiad a datblygiadau allweddol ym maes ansawdd a chwricwlwm. Mae hyn cynnwys recriwtio a chadw, asesu, cyraeddiadau, cynllunio cwricwlwm, Llais y Dysgwr, Diogelu a chymorth i ddysgwyr.

Ymhlith aelodau'r pwyllgor mae naw Llywodraethwr, yn cynnwys Myfyrwyr-lywodraethwr a Llywodraethwr y Staff Addysgu. Mae aelodau allweddol yr Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Cyfarwyddwyr Cyfadrannau (x3)
- Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol
- Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr
- Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Gwasanaethau Gwybodaeth

Yn 2020-21, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith:

- 10 Tachwedd 2020
- 19 Ionawr 2021
- 20 Ebrill 2021
- 22 Mehefin 2021

Cynhaliwyd bob cyfarfod o bell ac roedd pob un yn gwneud cworwm.

Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnig cyngor i'r Bwrdd ac yn monitro perfformiad ar faterion yn ymwneud â rheoli cyllid, adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn monitro cynnydd prosiectau cyfalaf mawr.

Ymhlith yr aelodau mae saith Llywodraethwr, yn cynnwys y Llywodraethwr Staff Cefnogi Busnes. Mae aelodau allweddol yr Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Cyfarwyddwr Ystadau
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Cyfarwyddwr TGCh
- Cyfarwyddwr Cyllid

Yn 2020-21, cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith:

- 20 Tachwedd 2020
- 26 Ionawr 2021
- 27 Ebrill 2021
- 15 Mehefin 2021

Cynhaliwyd bob cyfarfod o bell ac roedd pob un yn gwneud cworwm.

Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â llywodraethu ac aelodaeth y Gorfforaeth. Mae hyn yn cynnwys recriwtio aelodau, cynllunio olyniaeth, datblygu Llywodraethwyr ac amrywiaeth. Er bod penodiad i'r Gorfforaeth yn gyfrifoldeb y Bwrdd yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn goruchwyllo'r broses recriwtio, a rhaid i'r Bwrdd ystyried ei gyngor a'i argymhellion.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys chwe Llywodraethwr, gan gynnwys Cadeirydd y Gorfforaeth, y Pennaeth/Prif Weithredwr ac un Myfyriwr-Lywodraethwr.

Yn 2020-21, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith:

- 24 Tachwedd 2020
- 25 Ionawr 2021
- 4 Chwefror 2021
- 14 Ebrill 2021
- 7 Ionawr 2021

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Mae'r pwyllgor yn adrodd ar ei weithgareddau i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod, a thrwy'r Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys data ynghylch proffil sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd.

Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Bwrdd newid enw'r pwyllgor, ac o 2021-22 bydd yn cael ei adnabod fel y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth


Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cyfarfod yn flynyddol i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a thâl y pedwar deiliad swyddi uwch (y Pennaeth/Prif Weithredwr, yr Is-benaethiaid a'r Swyddog Llywodraethu). Cafodd y pwyllgor gyfarfod ym mis Tachwedd 2021, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch cydnabyddiaeth tâl deiliaid swyddi uwch ar gyfer 2020-21 a gafodd ei gymeradwyo ar ôl hynny yng nghyfarfod y Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2021.

Wrth ystyried cydnabyddiaethau tâl deiliaid swyddi uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried perfformiad, data meincnodi priodol ac unrhyw gydnabyddiaeth tâl ddiweddar a gafwyd gan staff.

Presenoldeb y Gorfforaeth

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn cadw cofnod o bresenoldeb ym mhob cyfarfod. Mae disgwyl i aelodau gynnal lefel dda o bresenoldeb gan fod hyn yn cefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bersonol am y coleg, ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu defnyddio'r holl brofiadau, sgiliau a safbwyntiau sydd ar gael iddo o fewn y broses gwneud penderfyniadau.

Isod, ceir crynodeb o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gyfer 2020-21:



DATBLYGIADAU ALLWEDDOL

Yn dilyn oediadau a achoswyd gan y pandemig, roedd y Bwrdd yn falch iawn o weld Parth Dysgu Torfaen yn cael ei gwblhau ym misoedd olaf 2020. Roedd gwaith cynllunio ar waith i agor ym mis Ionawr 2021, ond roedd rhaid oedi hyn ymhellach oherwydd cyfyngiadau parhaus COVID-19. Ar ôl gwyliau'r Pasg, cafodd y coleg groesawu myfyrwyr i'r adeilad newydd ym mis Ebrill 2021, a nodwyd hyn gyda seremoni torri rhiban fach gyda'r Cadeirydd yn bresennol. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cael cyfle i ymweld â'r campws.

Mae cynnydd ar ddatblygiad Ardal Wybodaeth Casnewydd (i gymryd lle'r safle ar Heol Nash) hefyd wedi cael ei oedi, ond mae'r Bwrdd yn parhau i gael diweddariadau ynghylch datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r safle posibl, a'r broses ymgeisio am gyllid. Mae gan y coleg berthynas waith dda gyda Chyngor Dinas Casnewydd, sy'n ymroddgar i'r prosiect, a gobeithir y gall gwaith ddechrau yn 2022 ar ôl cadarnhau'r cyllid.

Mae datblygiad Cynllun Strategol newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf wedi bod yn ffocws allweddol i'r Bwrdd yn ystod 2020-21. Cydweithiodd aelodau gyda'r Uwch Dîm Arwain drwy'r flwyddyn i lunio Cenhadaeth a Datganiad Gweledigaeth newydd a chytuno ar Dargedau Strategol uchelgeisiol. Cafodd y Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-26 ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021, a bydd yn cael ei lansio yn ystod tymor yr hydref 2021.

Yn ystod y flwyddyn, bu i weithgor adolygu dogfennau llywodraethu'r Gorfforaeth. Cafodd y gweithgor bedwar cyfarfod a dilyn cyngor cyfreithiol ar newidiadau posibl. Yn dilyn hyn, cymeradwyodd y Bwrdd Offeryn ac Erthyglau, Rheolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl newydd y pwyllgor fis Mai 2021.

MYNEDIAD AT WYBODAETH

Mae Corfforaeth Coleg Gwent wedi ymrwmo i fod yn agored ac yn atebol yn y modd mae'n cynnal ei busnes. Cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Defnyddio Gwybodaeth sy'n nodi'r broses a ddefnyddir i ddsbarthu gwybodaeth a sut all y cyhoedd ddefnyddio gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol.

Cynhwysir eitem Agenda ym mhob cyfarfod i drafod dosbarthu'r eitemau a drafodir a phapurau cysylltiedig. Mae'r Polisi Defnyddio Gwybodaeth yn gosod y meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried a ddylid trin gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio. Rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddsbarthu deunydd yn erbyn y meini prawf hyn, a chynhelir adolygiad o benderfyniadau o'r fath yn flynyddol gan y Bwrdd.

Mae agendâu cyfarfodydd Bwrdd ar gael ar wefan Coleg Gwent ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am gopiâu o bapurau/agendâu Bwrdd a phwyllgor eraill nad ydynt yn gyfrinachol. Mae'r Coleg hefyd yn ymgymryd ag agwedd ragweithiol mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth ac yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Cynllun Cyhoeddi yn amlinellu'r math o wybodaeth a gedwir gan y Coleg ar gael ar dudalennau Rhyddid Gwybodaeth gwefan y coleg.

SWYDDOG LLYWODRAETHU

Swyddog Llywodraethu Corfforaeth Coleg Gwent ar gyfer 2020-21 oedd Mrs Marie Carter sy'n meddu ar Dystysgrif Uwch y Sefydliad Llywodraethu Siartredig mewn Llywodraethu Corfforaethol. Mynychodd bob cyfarfod a gynhaliwyd gan Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2020-21, ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Yn ystod 2020-21, cwblhaodd y Swyddog Llywodraethu hyfforddiant gorfodol mewn Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, a chymerodd ran mewn digwyddiad hyfforddiant a gafodd ei gynnal gan JiSC ynghylch cyfrifoldebau Bwrdd mewn perthynas â Seiberddiogelwch. Cymerodd ran hefyd yng nghyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Addysg Bellach Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau a thrafod materion llywodraethu allweddol sy'n effeithio ar y sector Addysg Bellach yng Nghymru.

DATGANIAD SICRWYDD

Cyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Coleg Gwent wedi cyflawni ei chyfrifoldebau statudol yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021, ac y cwblhawyd holl fusnes Bwrdd y Gorfforaeth a'i bwyllgorau yn unol ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent a'r holl ddeddfwriaethau a chanllawiau perthnasol.

Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn bodloni'r disgwyliadau arfer gorau fel y'u nodwyd yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

..... Marie Carter, Swyddog Llywodraethu
Dyddiad.....

Mae Bwrdd Corfforaeth Coleg Gwent wedi adolygu'r adroddiad hwn, a hyd eithaf ei wybodaeth, mae'n gofnod cywir a theg o fusnes y Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021.

..... Mark Langshaw MBE, Cadeirydd Llywodraethwyr
Dyddiad.....